

9.4

# CAN GOFFADWRIAETHOL AM MR. DAVID HIGGON,

CHIEF MATE Y BARQUE "SUPREME," O GREENOCK,

Yr hwn a foddodd ar y 3ydd o Orphenaf, 1886, yn Lat. 8° 57' N., a 50° 12' W.,

TRA AR FORDAITH O BUENOS AYRES I BARBADOES.

CHWI, Gymry De a Gogledd, yn fwynion dewch yn mla'n,  
Gwrandewch yn astud arnaf, mae genyf alar gân ;  
Mab ieuanc yw fy nhestyn, sydd heddyw'n wael ei wedd,  
A'i gorph fydd yn y moroedd nes agor pyrth y bedd.

Pan bloeddia'r udgorn olaf i alw pawb yn nghyd,  
Pryd hyny caiff gyfodi yn llawen iawn ei fryd ;  
Bydd Crist yn pasio dedfryd ar bawb o deulu'r llawr,  
A Dafydd a fydd yno yn mysg y dyrfa fawr.

Pan yn gadael Buenos Ayres yr oedd pawb yn llawen iawn,  
Gan obeithio gwel'd Barbadoes yn mhen mis o ddyddiau llawn ;  
Do, fe hwyliwyd am bump wythnos, heb i ddim i fyn'd yn groes,  
Ar y trydydd o Orphenaf fe ddarfyddodd ef ei oes.

Pan 'roedd yn gweithio'n ddifyr am un o'r gloch prydawn  
Yn ddiarwybod cwmpodd i'r dyfroedd dyfnion iawn ;  
'Roedd pawb o'r dwylaw'n weithgar, yn sobr, ac yn syn,  
Difrifwch oedd i'w ganfod yn ngwedd pob un pryd hyn.

Wrth wel'd ein hanwyl gyfaill yn suddo yn y lli',  
Pawb wnai yr oll a allai er safio'i fywyd eu ;  
Tri *life buoy* ga'dd eu taflu, a rhaffau yn ddiri',  
Cwch hefyd a ro'w'd allan—pob peth a allem ni.

Am awr a haner buom yn chwilio—pawb yn drist,  
Ond 'roedd ef wedi 'hedeg i fynwes Iesu Grist ;  
Bu raid i ni ddychwelyd i'r llong â chalon brudd,  
Cawn oll gyfarfod eto yn marn yr olaf ddydd.

Rhaid yw coffa Cadben Lewis wnaeth fath ymdrech gyda'r gwaith,  
I geisio safio Dafydd, druan, rhag ei suddo i'r dyfnder maith ;  
Teithio 'roedd i'r byd tragwyddol heb gael mynyd iddo'i hun,  
Fel mae'n dwedyd yn y Beibl, "Gwylia pan ddel Mab y dyn."

Dyma newydd trist, galarus, sydd i deulu'r Capel Bach,  
Dysgwyl clywed o'ent fod Dafydd yn *arrivo*'n llon ac iach,  
Yn lle hyny dyma newydd sydd yn rhwygo 'u bron yn siwr,  
Clywed fod eu hanwyl Dafydd obry'n isel dan y dw'r.

O ! fe ga'dd ei dori'n sydyn, do, yn mlodau 'i ddyddiau prid,  
Tair ar hugain oedd ei oedran pan 'madawodd ef â'r byd ;  
Ac mae hiraeth yn fy nghalon, gorfod coelio'i fod yn wir,  
Ac fod angeu yma'n rhodio ar y môr ac ar y tir.

Meddwl 'roedd, wrth ddechreu'r fordaith, nad oedd dim i dd'od  
Yn lle hyny, yn ddirybudd y cadd ef ei symud fwrdd ; [i'w gwrdd  
Meddwl 'roedd cael oes o wynfyd tra byddai yma ar y llawr,  
Ond y mae ef mewn gwell gwynfyd gyda Iesu Grist yn awr.

O ! yr Arglwydd a fendithio y galarwyr oll o'r bron,  
A boed hyn o dro yn rhybudd tra f'ont ar y ddaear hon,  
Ac y troant eu gwynebau tuag at orseddfaine Duw,  
A gwnant rodio yn ei ddeddfau tra b'ont yma'r dir y byw.

O ! ieuencyd anwyl Cymru, cym'rwch rybudd 'nawr i gyd,  
Cofiwch gerdded llwybrau rhinwedd tra f'och yma yn y byd ;  
Wedi cewch y trysor gwerthfawr sydd uwchlaw y byd a'i boen,  
Chwi gewch fyw o fewn y nefoedd gyda'r croeshoeliedig Oen.

Cedwch ei orch'mynion gwerthfawr a'i gyfreithiau oll bob darn,  
Gellwch sefyll yn ddiddychryn ger ei fron yn nydd y farn ;  
A chewch bythol fyw mewn gwynfyd gydag ef yn entrych nen,  
Cofiwch hyn, gyfeillion anwyl, y cewch ganu byth. Amen.

JOHN JENKINS, SECOND MATE.

J. C. Roberts, Argraffydd, Swyddfa'r *Observer*, Aberteifi.